



YSGOL GYFUN GYMRAEG LLANGYNWYD

PRIFATHRO | HEADTEACHER: MR MEURIG JONES BA (Anrh), CPCP

LLANGYNWYD, PEN-Y-BONT AR OGWR, CF34 9RW

POST.YGGLLANGYNWYD@BRIDGEND.GOV.UK

WWW.YGGLLANGYNWYD.CYMRU

@YGGLLANGYNWYD

01656 815700

01656 815701

Anogwr Dysgu CA5

**Swydd llawn amser am flwyddyn yn y lle cyntaf, (ystyrir swydd barhaol i ymgeisydd sydd â phrofiad)
(32.5 awr – oriau gweithio hyblyg i'w trafod)**

Amser tymor ysgol yn unig

Gradd 6 SCP 9-11 £20.9k- £21.7k (cyfatebiaeth amser llawn)

pro rata £15.3k – 15.8k

Dyma gyfle arbennig i ymuno ag ysgol flaengar a llwyddiannus mewn cyfnod cyffrous yn ei hanes. Mae gennym dîm brwdfrydig o staff sydd yn ymroi'n llwyr i gynnal safonau uchaf o ddysgu ac addysgu a chyflawniad dysgwyr. Rydym yn chwilio am berson brwdfrydig, ymroddgar a hyblyg i weithio fel Anogwr Dysgu, yn bennaf gyda myfyrwyr Cyfnod Allweddol 5.

Agorodd Ysgol Gyfun Gymraeg Llangynwyd ym mis Medi 2008 fel yr Ysgol Gyfun Gymraeg Gyntaf yn Sir Pen y Bont ar Ogwr. Lleolir yr ysgol i'r de o bentref hanesyddol Llangynwyd, llai na 10 munud o gyffordd 36 yr M4. Mae iddi gysylltiadau rhwydd a pharod o Abertawe i'r gorllewin (llai na 30 munud) a Chaerdydd i'r dwyrain (25 munud).

Prif ddyletswyddau:

- Mentora myfyrwyr yn unigol neu mewn grwpiau bach
- Gosod targedau a chyd-lynu cynlluniau gweithredu ar gyfer unigolion a monitro eu cynnydd
- Cynorthwyo'r Arweinwyr Cynnydd a Lles perthnasol wrth hyrwyddo agwedd cadarnhaol at ddysgu, megis presenoldeb, prydlondeb ac astudio annibynnol
- Cefnogi'r myfyrwyr gyda phrosesau pontio o CA4 i CA5 a thu hwnt
- Cyfathrebu gyda rhieni ac asiantaethau allanol wrth gynorthwyo'r myfyrwyr â'u haddysg / lles personol

Rhaid i'r ymgeisydd llwyddiannus:

- fod yn frwdfrydig dros lwyddiant myfyrwyr
- weithio'n dda gyda phobl ifanc ac oedolion
- fod yn gallu creu perthynas dda gyda'r myfyrwyr a'u cartrefi, wrth ymateb yn sensitif i'w hanghenion dysgu a'u hanghenion academaidd a bugeiliol
- allu cyfathrebu'n dda iawn trwy gyfrwng y Gymraeg
- feddu ar sgiliau hunan-reolaethol effeithiol
- fod yn fodlon dysgu sgiliau a gwybodaeth newydd
- fod yn hawddgar ac yn gefnogol
- fynychu cyfarfodydd perthnasol lle bo angen

Disgwylir bod ymgeiswyr ar gyfer y swydd â chefnidir academaidd i lefel 3 (NVQ3, safon Uwch/UG neu gymhwyster cyfatebol) ac â phrofiad o weithio'n barod yn y maes yn fanteisiol.

Os hoffech ymuno â ni yn Ysgol Gyfun Gymraeg Llangynwyd, lawr lwythwch y ffurflen gais oddi ar wefan E-teach ac/neu am sgwrs anffurfiol cysylltwch â'r ysgol.

Dyddiad cau ar gyfer ceisiadau: **12pm, Dydd Gwener, 09 Gorffennaf 2021**

This is an advertisement for the post of a KS5 Learning Coach in a Welsh Medium School. The ability to communicate fluently in Welsh is essential.

D Y S G . . . D A W N . . . D Y F O D O L . . .

